**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Is-ganghellor,
Prifysgolion Cymreig

7 Gorffennaf 2023

## Myfyrwyr rhyngwladol

Yn ystod ein gwaith diweddar ar gymorth iechyd meddwl mewn addysg uwch, clywsom bryderon am y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr rhyngwladol. Clywsom hyn yn uniongyrchol gan fyfyrwyr rhyngwladol, a chan amrywiaeth o sefydliadau. O ganlyniad, gwnaethom yr argymhelliad a ganlyn, ac rydym yn falch o ddweud i Lywodraeth Cymru ei dderbyn:

> *"Argymhelliad 2. Mae angen i Lywodraeth Cymru, CCAUC, y Comisiwn newydd, darparwyr addysg uwch a chynrychiolwyr myfyrwyr weithio gyda'i gilydd i osod lefel sylfaenol o ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol, gan ystyried anghenion penodol y gwahanol grwpiau sy'n ffurfio'r gymuned myfyrwyr rhyngwladol. Gall hyn olygu datblygu rhwydweithiau cymheiriaid penodol ar gyfer grwpiau myfyrwyr rhyngwladol. Ni ddylai'r lefel sylfaenol hon o ddarpariaeth fod yn rhy ragnodol, gan y bydd angen i bob darparwr addasu ei ddarpariaeth i ddiwallu anghenion penodol ei fyfyrwyr, ac ystyried amgylchiadau ei sefydliad ei hun, ond dylai sicrhau bod lefel ofynnol glir o gymorth y gall pob myfyriwr rhyngwladol ledled Cymru wybod y gall gael gafael arni. Dylid hyrwyddo'r fframwaith hwn mewn ffyrdd a fydd yn cyrraedd gwahanol rannau o'r gymuned myfyrwyr rhyngwladol, o'r cam cyn ymgeisio i'r cyfnod ar ôl graddio."*

Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y gall myfyrwyr rhyngwladol wynebu heriau ehangach. Yn ystod y ddadl ar ein hadroddiad yn y Cyfarfod Llawn, gwnaeth Buffy Williams AS, sy’n aelod o’n Pwyllgor, amlygu rhai o’r materion hyn. Mae'r materion a godwyd ganddi yn cyd-fynd â straeon y mae aelodau eraill o'r Pwyllgor wedi eu clywed yn eu gwaith achos.

Un o’r pryderon allweddol yw’r diffyg cysylltiad rhwng yr hyn sydd efallai’n cael ei addo i fyfyrwyr cyn iddynt symud i Gymru a’r hyn sydd ar gael mewn gwirionedd ar ôl iddynt gyrraedd. Yna bydd yn rhaid iddynt sicrhau eu llety eu hunain, gan wynebu trafferth yn aml i ddod o hyd i lety fforddiadwy ac addas. I'r myfyrwyr hynny sy'n dod â'u teuluoedd, gall yr heriau hyn fod yn fwy sylweddol fyth. Nid oes ganddynt hawl i arian cyhoeddus ac ni allant wneud gwaith cyflogedig. Gallant hwy a'u teuluoedd gael eu hunain yn ddiymgeledd ac yn dibynnu yn aml ar fanciau bwyd a chymorth gwirfoddol arall.

Hoffem weld prifysgolion yng Nghymru’n gwneud mwy i sicrhau bod pob myfyriwr rhyngwladol sy’n ystyried astudio yng Nghymru yn gwybod pa gymorth y gall ei ddisgwyl gan y sefydliad, a goblygiadau ariannol ei astudiaethau. Gwyddom fod astudio yng Nghymru’n beth cadarnhaol ac yn gyfle sy’n newid bywyd llawer o fyfyrwyr, ac rydym am sicrhau mai felly y bydd hi i bob myfyriwr.

Mae materion a heriau ychwanegol hefyd yn wynebu’r myfyrwyr hynny sy’n dod â’u teuluoedd. Rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi yn ddiweddar y bydd yn cyfyngu ar y gallu i ddod â dibynyddion i'r myfyrwyr hynny sydd ar raglenni ymchwil ôl-raddedig yn unig. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod rhai myfyrwyr a’u teuluoedd ar hyn o bryd yn wynebu diymfadedd yng Nghymru, ac mae eu statws mewnfudo’n golygu nad oes ganddynt unrhyw hawl i arian cyhoeddus. Credwn ei bod yn bwysig bod prifysgolion yn darparu digon o gymorth, arweiniad a chyngor i sicrhau bod myfyrwyr a’u teuluoedd yn gallu gwneud y gorau o’r cyfleoedd sydd ar gael o astudio yng Nghymru.

Rydym yn ysgrifennu at bob prifysgol yng Nghymru i sicrhau eich bod yn ymwybodol o’n pryderon ac i ofyn i chi wneud popeth o fewn eich gallu i sicrhau bod myfyrwyr rhyngwladol yn cael y wybodaeth gywir cyn gwneud cais, a chymorth amserol ac effeithiol ar ôl iddynt symud i Gymru.

Rydym hefyd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i godi ein pryderon. Mae copi o'r llythyr hwnnw ynghlwm.

Yn gywir,

Jayne Bryant

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Wedi'i hatodi: Llythyr at Weinidog y Gymraeg ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.